# Agenda - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 13 Rhagfyr 2017

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Bethan Davies**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6372

SeneddCyllid@cynulliad.cymru

## Ar 7 Rhagfyr 2017, penderfynodd y Pwyllgor wahardd y cyhoedd o ddechrau'r cyfarfod hwn

**1 Yr effaith wrth i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd - Papur cwmpasu**

(09.30-10.00) (Tudalennau 1 - 3)

Papur 1 - Yr effaith wrth i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd - Papur cwmpasu

**2 Blaenraglen waith - Papur cwmpasu**

(10.00-10.15) (Tudalennau 4 - 8)

Papur 2 - Blaenraglen waith - Papur cwmpasu

**3 Offerynnau Statudol ym maes treth: briff technegol**

(10.15-11.15)

Liz Matthews, Rheolwr Prosiect Gweithrediadau Awdurdod Cyllid Cymru

Gurvinder Bhakar, Cyfreithiwr, Tîm y Trysorlys

Andrew Hewitt, Rheolwr Prosiect y Dreth Trafodiadau Tir

Sarah Govier, Rheolwr Prosiect Polisi Trethi Datganoledig

**11.15-11.30 - Egwyl**

**Cyhoeddus**

**4 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**

(11.30)

**5 Papur(au) i'w nodi**

(11.30)

**5.1 PTN1 – Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid – Cyllidebau Awdurdod Cyllid Cymru ar gyfer 2017/18 – 2019/20 – 4 Rhagfyr 2017**

(11.30) (Tudalennau 9 – 11)

**5.2 PTN2 – Adroddiad ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol Corfforaethol Ebrill 2017 – Medi 2017 – 7 Rhagfyr 2017**

(11.30) (Tudalennau 12 – 30)

## 6 Papur briffio: Rhagamcanion ar gyfer trethi datganoledig

(11.30-12.30) (Tudalennau 31 – 45)

Robert Chote, Cadeirydd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 2

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Mark Drakeford AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid**
**Cabinet Secretary for Finance**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Simon Thomas AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

4 Rhagfyr 2017

Annwyl Simon

**CYLLIDEBAU AWDURDOD CYLLID CYMRU AR GYFER 2017/18 - 2019/20**

Gyda Chymru ar fin cymryd cyfrifoldeb dros y ddwy dreth ddatganoledig newydd, ysgrifennaf gyda diweddariad pellach ar y costau sy'n gysylltiedig â sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru (ACC).

Ysgrifennais i'r Pwyllgor Cyllid ym mis Mawrth 2017 i roi'r diweddaraf am y costau a amcangyfrifwyd ar gyfer *sefydlu* Awdurdod Cyllid Cymru. Eglurais ar y pryd fod y gost hon yn £1.3 miliwn yn 2016/17 a bod y rhagolygon yn datgan y byddai tua £3.5 miliwn yn 2017/18. Dywedais hefyd fy mod i'n disgwyl y byddai costau sefydlu pellach o £1 miliwn yn 2018/19. Ym mis Medi, cadarnheais fod yr amcangyfrifon presennol yn dangos y gellid sefydlu'r Awdurdod o fewn y ffigurau a gyhoeddwyd yn flaenorol, (o fewn £6.3m dros gyfnod o dair blynedd).

Yn ogystal â hynny, roedd fy llythyr ym mis Mawrth yn egluro bod yr Awdurdod yn debygol o ysgwyddo costau gweithredol (hy costau rhedeg) o tua £1 miliwn yn 2017/18 ar ben y costau sefydlu. Ym mis Medi, ysgrifennais i egluro y byddai rhaid i gostau rhedeg blynyddol gwirioneddol yr Awdurdod adlewyrchu'r dyletswyddau ychwanegol sy'n gysylltiedig â chasglu trafodiadau y cyfraddau uwch ar gyfer eiddo preswyl ychwanegol ac annibyniaeth weithredol yr Awdurdod.

Ymrwymais i fireinio'r amcangyfrifon o'r costau pan fyddai cerrig milltir yn cael eu cyflawni. Mae Awdurdod Cyllid Cymru wedi'i sefydlu'n gyfreithiol erbyn hyn ac mae gennym ddealltwriaeth well o lawer o'r costau sefydlu a gweithredol allweddol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Er mwyn talu costau prosiect gwasanaethau digidol a ysgwyddwyd eleni, rwyf wedi cytuno y gellir defnyddio'r gyllideb sefydlu gyfan sy'n weddill o £5m yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Yn gyffredinol, rwy'n dal i ddisgwyl i'r gwaith o sefydlu'r Awdurdod gael ei gwblhau o fewn y ffigurau a gyhoeddwyd yn flaenorol, (£6.3m) a bydd y rhaglen sefydlu yn dod i ben yn awr ym mis Mawrth 2018.

Yn sgil y gofynion newydd sy'n gysylltiedig â chasglu a rheoli'r trafodiadau'r cyfraddau uwch ar gyfer eiddo preswyl ychwanegol a sicrhau bod yr Awdurdod yn gweithredu'n gwbl annibynnol, mae gweithrediadau'r Awdurdod wedi dod yn fwyfwy cymhleth, ac mae ei gostau wedi cynyddu. Nid oedd y gofynion newydd hyn yn hysbys pan gytunwyd ar y ddeddfwriaeth ar gyfer sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a phan gafodd yr amcangyfrifon cychwynnol o'r costau gweithredol eu cyhoeddi.

Bydd rheoli trafodiadau'r cyfraddau uwch ar gyfer eiddo preswyl ychwanegol yn benodol yn golygu bod yr Awdurdod yn mynd i roi mesurau ar waith i ddelio, ar amcangyfrif, â 7,500 arall o drafodiadau trethadwy. Yn ôl y rhagolygon, bydd dros £65m o refeniw ychwanegol gros yn cael ei gynhyrchu ac efallai y bydd angen i'r Awdurdod weinyddu ad-daliadau o tua £15m y flwyddyn o ganlyniad i'r polisi ar eiddo preswyl ychwanegol. Bydd mesurau cydymffurfio newydd – gan gynnwys cydweithio'n agosach eto â HMRC a Revenue Scotland yn benodol – yn arbennig o bwysig wrth gasglu'r cyfraddau uwch. Mae'r cyfraddau uwch yn ystyried eiddo sydd wedi'i leoli ar draws y Deyrnas Unedig. Mae'n hanfodol, felly, fod yr Awdurdod yn alluog i ymgymryd â'r math o waith cydymffurfio sydd ei angen i sicrhau bod y swm cywir o dreth yn cael ei gasglu a bod ad-daliadau yn cael eu hawlio'n briodol.

Mae gwaith datblygu pellach eleni yn golygu y bydd cyllideb weithredol yr Awdurdod yn £1,500,000. Yn ystod ei ddwy flynedd gyntaf o weithredu, 2018/19 a 2019/20, bydd yn £6,000,000 ym mhob blwyddyn. Byddaf, wrth reswm, yn cadw llygad barcud ar y cyllidebau a'u hadolygu.

Mae'r tabl isod yn crynhoi cyllideb ddiwygiedig yr Awdurdod.

| Prosiect | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 |
|---|---|---|---|---|
| Sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru | £1,300,000 | £5,000,000 | £0 | Amh |
| Costau gweithredol ('rhedeg') ACC | | £1,500,000 | £6,000,000 | £6,000,000 |

Hyderaf fod yr uchod o gymorth.

Yn gywir

Mark Drakeford

**Mark Drakeford AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid
Cabinet Secretary for Finance

**Manon Antoniazzi**
Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad
Chief Executive and Clerk of the Assembly

Simon Thomas AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

7 Rhagfyr 2017

Annwyl Simon

Mae'n bleser gennyf anfon Adroddiad Comisiwn y Cynulliad ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol Corfforaethol at y Pwyllgor Cyllid. Mae'n cwmpasu perfformiad y Comisiwn yn erbyn ein nodau strategol ar gyfer y cyfnod o fis Ebrill 2017 hyd at fis Medi 2017.

Gwelodd Comisiwn y Cynulliad lefel uchel o weithgarwch ac mae'n parhau i berfformio'n dda yn erbyn ei nodau strategol. Lle mae perfformiad wedi gostwng ac mae dangosyddion yn Oren, rydym yn fodlon bod y gwaith ar y gweill i fynd i'r afael â'r materion a godwyd. Mae crynodeb o'r prif bwyntiau i'w gweld ar dudalennau 3, 4 a 5 yr adroddiad.

Rwy'n gobeithio y bydd yr adroddiad yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor ac yn ei helpu gyda'i waith. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw ymholiadau, neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth. Caiff yr adroddiad ei gyhoeddi nawr ar dudalennau'r Comisiwn ar y we.

Yn gywir

Manon


**Manon Antoniazzi**

**Prif Weithredwr a Chlerc**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Manon.Antoniazzi@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 6230

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Manon.Antoniazzi@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 6230



Cynulliad Cenedlaethol Cymru

# Dangosydd Perfformiad Allweddol Corfforaethol

Ebrill 2017 - Medi 2017

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Comiswn y Cynulliad

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru**

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael mewn fformatau hygyrch, gan gynnwys ar ffurf Braille, fersiwn hawdd ei darllen, fersiwn print bras, fersiwn sain a chopi caled drwy gysylltu â ni:

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ar-lein: **www.cynulliad.cymru**
E-bost: **cysylltu@cynulliad.cymru**
Ffôn: **0300 200 6565**

Rydym yn croesawu galwadau a wneir drwy wasanaeth Text Relay.

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2017**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

# Dangosydd Perfformiad Allweddol Corfforaethol

Ebrill 2017 - Medi 2017

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Comisiwn y Cynulliad

# Cynnwys

Cyflwyniad ..... 1
Adrodd ar berfformiad ..... 1
Arolwg Boddhad Aelodau'r Cynulliad a Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad ..... 2
Mynediad at wybodaeth ..... 2
Cyflawniad ar sail Nodau Strategol ..... 3
Nod strategol: Darparu cymorth seneddol o’r radd flaenaf ..... 6
Nod strategol: Ymgysylltu â holl bobl Cymru a hyrwyddo’r Cynulliad ..... 7
Nod strategol: Defnyddio adnoddau’n ddoeth ..... 9
Arolwg Boddhad yr Aelodau a’u Staff Cymorth ..... 11



# Cyflwyniad

Yr enw ar gorff corfforaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw Comisiwn y Cynulliad. Mae'r Comisiwn yn gwasanaethu Cynulliad Cenedlaethol Cymru i gynorthwyo â'r gwaith o'i wneud yn sefydliad democrataidd cryf, hygyrch a blaengar ac yn ddeddfwrfa sy'n gweithredu'n effeithiol ar gyfer pobl Cymru.

Mae'r Comisiwn yn cynnwys Elin Jones AC, y Llywydd, a phedwar Aelod Cynulliad arall a etholwyd gan y Cynulliad: Suzy Davies AC, Caroline Jones AC, Adam Price AC a Joyce Watson AC. Mae'r Comisiwn yn gyfrifol am gyfeiriad strategol gwasanaethau'r Cynulliad ac mae'n atebol i'r Cynulliad. Mae'r gwaith o reoli a chyflawni o ddydd i ddydd wedi'i ddirprwyo i **Brif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad**, Manon Antoniazzi.

**Strategaeth Comisiwn y Cynulliad 2016-21** sy'n pennu ein nodau ar gyfer y Pumed Cynulliad. Ein nodau strategol yw:

– darparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf;

– ymgysylltu â holl bobl Cymru a hyrwyddo'r Cynulliad; a

– defnyddio adnoddau'n ddoeth.

## Adrodd ar berfformiad

Mae'r nodau strategol hyn yn pennu'r fframwaith am gyfres uchelgeisiol o flaenoriaethau sy'n adeiladu ar y buddsoddiad a'r momentwm a gyflawnwyd yn y Pedwerydd Cynulliad.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys nifer o brif ddangosyddion, a bennwyd yn unol â'r nodau strategol, sydd wedyn yn cael eu rhannu'n ddangosyddion manylach. Defnyddir system 'goleuadau traffig' i ddangos perfformiad yn erbyn y targedau o ran dangosyddion:

**Allwedd ar gyfer statws Coch/Oren/Gwyrdd:**

**Coch:** Mae materion sylweddol yn effeithio ar y gallu i gyflawni amcanion busnes. I sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni, mae angen newidiadau o ran amser, costau a/neu gwmpas.

**Oren:** Mae materion neu risgiau y mae angen mynd i'r afael â hwy. Serch hynny, mae'n bosibl y bydd modd cyflawni'n llwyddiannus heb effeithio rhyw lawer ar y gyllideb, safon gwasanaethau na dyddiadau targed.

**Gwyrdd:** Mae gwaith yn bodloni'r safonau y cytunwyd arnynt neu'n mynd rhagddo fel y cynlluniwyd. Mae pob risg sy'n hysbys yn cael ei rheoli.

Mae'r adroddiad hwn yn ystyried perfformiad Comisiwn y Cynulliad yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill 2017 a mis Medi 2017, yn ôl y nodau strategol a bennwyd.

Mae Comisiwn y Cynulliad hefyd yn cyhoeddi **Adroddiad Blynyddol a Datganiad o Gyfrifon** sy'n amlinellu sut y mae'r Comisiwn yn cyflawni yn ôl ei nodau a'i flaenoriaethau strategol a'r hyn a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn ariannol.

Dylid darllen yr adroddiad hwn ynghyd â'r Adroddiad Blynyddol a'r Datganiad o Gyfrifon i gael darlun llawn o berfformiad y Comisiwn a'r hyn y mae wedi'i gyflawni.

## Arolwg Boddhad Aelodau'r Cynulliad a Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad

Ym mis Chwefror, gofynnir i'r Aelodau Cynulliad a staff cymorth gwblhau arolwg boddhad blynyddol er mwyn helpu i fesur pa mor dda y mae'r gwasanaethau a ddarperir gan staff y Comisiwn wedi perfformio dros y flwyddyn ddiwethaf.  Mae crynodeb o'r canlyniadau i'w weld yn yr adroddiad hwn.

## Mynediad at wybodaeth

Mae'r Comisiwn yn fodlon darparu rhagor o wybodaeth os hoffech ddysgu rhagor am ein gwaith:

– Gallwch gysylltu â ni yma: **www.cynulliad.cymru/cysylltu**

– Mae canllawiau ar **fynediad at wybodaeth** ar gael ar wefan y Cynulliad.

# Cyflawniad ar sail Nodau Strategol

Crynodeb o'r wybodaeth fanylach sy'n dilyn am y dangosyddion perfformiad allweddol (DPA):

| Darparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf | Ebrill 2016 – Medi 2016 | Ebrill 2017 – Medi 2017 |
|---|---|---|
| **DPA 1: Mae'r holl fusnes seneddol wedi digwydd yn ôl y bwriad**<br>Perfformiad uchel cyson ar amseroldeb cyhoeddi papurau pwyllgor a phapurau briffio. Oherwydd cynnydd yn nifer yr oriau Cyfarfod Llawn ac oriau pwyllgor, bu gostyngiad bychan yng Nghofnod y Trafodion Pwyllgorau a gyhoeddwyd ar amser. | Gwyrdd | Gwyrdd |
| **DPA 2: Darparu Datblygiad Proffesiynol effeithiol**<br>Yn ôl y disgwyl, roedd y nifer sy'n manteisio ar weithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus yn uchel yn dilyn Etholiadau mis Mai 2016. Felly, mae'r nifer wedi gostwng o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd oherwydd anghenion newidiol Aelodau'r Cynulliad ar y cam hwn o gylch y Cynulliad. Mae sgôr uchel wedi'i dderbyn ar gyfer yr effaith gadarnhaol a gaiff ar waith cynrychiolwyr. Mae'r Tîm Sgiliau Iaith wedi gweld lefel gyson yn nifer y dysgwyr Cymraeg. | Gwyrdd | Gwyrdd |

| Ymgysylltu â holl bobl Cymru a hyrwyddo'r Cynulliad | Ebrill 2016 – Medi 2016 | Ebrill 2017 – Medi 2017 |
|---|---|---|
| **DPA 3: Helpu i feithrin dealltwriaeth ynghylch rôl a gwaith y Cynulliad**<br>Bu cynnydd yn nifer yr ymwelwyr, ac roedd canran fawr o hyn oherwydd y gosodiad Weeping Window a oedd yn rhedeg o fis Awst i fis Medi 2017. Er bod gostyngiad yn nifer yr ymwelwyr sy'n mynd ar daith, mae lefelau boddhad ymwelwyr yn parhau'n uchel. Bu cynnydd yn nifer y digwyddiadau a drefnwyd ar yr ystâd yn ystod y cyfnod hwn o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd oherwydd y diddymiad a chyfnod Etholiad mis Mai 2016 yn arwain at drefnu llai o ddigwyddiadau. | Gwyrdd | Gwyrdd |
| **DPA 4: Hyrwyddo gwaith y Cynulliad**<br>Crëodd Etholiadau mis Mai 2016 lefelau uwch o sylw yn y cyfryngau cymdeithasol ac felly mae rhai meysydd, megis gwylio fideos ar YouTube a Senedd TV yn dangos gostyngiad sylweddol o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd. Mae'r gostyngiad hefyd gan fod fideos bellach yn cael eu rhoi'n uniongyrchol ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol yn hytrach na bod pobl yn cael eu cyfeirio at y fideo ar YouTube neu Senedd TV. Fodd bynnag, cafwyd cynnydd sylweddol yn nifer y munudau YouTube a wyliwyd; mae hyn oherwydd bod y Cyfarfod Llawn bellach yn cael ei ffrydio'n fyw i YouTube yn hytrach na dim ond ar Senedd TV, sydd hefyd wedi cyfrannu at y gostyngiad yn niferoedd Senedd TV. Er gwaethaf y gostyngiad sylweddol yn y nifer sy'n gwylio'r fideos, mae statws RAG ar gyfer dangosyddion YouTube a Senedd TV wedi'i osod yn 'oren' a bydd perfformiad yn cael ei fonitro i sicrhau cysondeb yn y ffigurau gwylio yn y dyfodol. Mae'r ymweliadau â blog y Gwasanaeth Ymchwil wedi cynyddu flwyddyn ar ôl ei lansio ym mis Medi 2013. O ddechrau'r Pumed Cynulliad, bydd mwy o flogiau'n cael eu cyhoeddi fel mater o drefn ar eitemau'r Cyfarfod Llawn. | Gwyrdd | Oren |

| Defnyddio adnoddau'n ddoeth | Ebrill 2016 – Medi 2016 | Ebrill 2017 – Medi 2017 |
|---|---|---|
| **DPA 5: Gwariant i'r targed**<br>Mae Comisiwn y Cynulliad yn parhau ar y trywydd iawn i gyflawni'r rhagolygon tanwariant ar darged diwedd y flwyddyn. Nododd y cyfnod diwethaf arbedion o £362,000 dros bum mlynedd. Bydd y cyfnod hwn yn gweld arbedion o £73,414. Mae taliadau i gyflenwyr ac Aelodau'r Cynulliad yn parhau i fod ymhell o fewn y targed. | Gwyrdd | Gwyrdd |
| **DPA 6: Mae gofynion a disgwyliadau o ran adnoddau staff yn cael eu bodloni**<br>Mae cyfraddau absenoldeb am gyfartaledd o 12 mis wedi dangos cynnydd yn ystod y cyfnod hwn o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd. Bu cynnydd mewn salwch hirdymor a byrdymor. Materion iechyd meddwl yw'r achos uchaf o absenoldeb dros y cyfnod treigl o 12 mis. Roedd gostyngiad bach yn nifer y bobl a gwblhaodd yr arolwg staff blynyddol o'i gymharu â'r cyfnod blaenorol, ond mae'r gyfradd ymateb yn dal i fod yn uwch na chanolrif y Gwasanaeth Sifil. Mae nifer y staff wedi cynyddu i adlewyrchu'r swyddi a gymeradwywyd gan y Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau. | Gwyrdd | Oren |
| **DPA 7: Mae gwasanaethau TGCh yn cael eu darparu fel y bwriadwyd**<br>Mae safonau perfformiad y gwasanaeth yn parhau ar y targed. | Gwyrdd | Gwyrdd |
| **DPA 8: Mae ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn cael eu prosesu yn ôl yr angen**<br>Atebwyd yr holl geisiadau Rhyddid Gwybodaeth a ddaeth i law o fewn y terfyn amser statudol. | Oren | Gwyrdd |
| **DPA 9: Mae targedau amgylcheddol yn cael eu cyflawni yn ôl y bwriad**<br>Mae cynnydd da yn parhau i gael ei wneud o ran y targedau amgylcheddol. Mae Comisiwn y Cynulliad wedi sicrhau gostyngiad o 20% yng nghyfanswm yr allyriadau ynni o'i gymharu â llinell sylfaen 2012-13 ac mae ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed o ostyngiad o 30% erbyn 2021. Mae'r targed o ddargyfeirio 100% o'r gwastraff o safleoedd tirlenwi bellach wedi'i gyflawni, cyn dyddiad targed 2021. | Gwyrdd | Gwyrdd |

# Nod strategol: Darparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf

| | Targed | Ebrill 2016 – Medi 2016 | Ebrill 2017 – Medi 2017 | |
|---|---|---|---|---|
| **DPA 1: Mae'r holl fusnes seneddol wedi digwydd fel y cynlluniwyd** | | | | |
| Canran y papurau pwyllgor a gyhoeddwyd o fewn terfynau amser y cytunwyd arnynt â phob pwyllgor | 100% | 95.0% | 96.7% | |
| Canran Cofnod Trafodion y Cyfarfod Llawn a gyhoeddwyd o fewn y terfyn amser | 100% | 100% | 100% | |
| Canran Cofnod Trafodion y pwyllgorau a gyhoeddwyd o fewn 5 diwrnod gwaith | 100% | 100% | 96.6% | |
| Canran o drafodion y Cynulliad (cyfarfodydd pwyllgor/Cyfarfod Llawn) yr effeithiwyd arnynt oherwydd methiant i ddarparu gwasanaethau'r Comisiwn | 0% | 0.0% | 0.0% | |
| Canran yr ymholiadau i'r gwasanaeth ymchwil a atebwyd o fewn y terfyn amser y cytunwyd arno | 100% | 98.7% | 99.7% | |

Noder: Dangosir y data fel cyfartaledd ar gyfer y cyfnod adrodd.

| | Targed | Ebrill 2016 – Medi 2016 | Ebrill 2017 – Medi 2017 | |
|---|---|---|---|---|
| **DPA 2: Darparu Datblygiad Proffesiynol effeithiol** | | | | |
| Nifer y lleoedd ar raglen Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) a lenwyd gan Aelodau'r Cynulliad [1] | 90 | 198 | 70 | |
| Nifer y lleoedd ar raglen Datblygiad Proffesiynol Parhaus a lenwyd gan Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad [1] | 175 | 315 | 283 | |
| Y graddau y mae Aelodau'r Cynulliad a Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad yn disgwyl i'r hyfforddiant a ddarparwyd gael effaith gadarnhaol ar eu gwaith [2] | 70% effaith gadarnhaol | 99.0% | 97.2% | |
| Nifer y Dysgwyr Cymraeg (staff y Comisiwn, Aelodau Cynulliad a Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad) sy'n cael hyfforddiant drwy'r Tîm Sgiliau Iaith [3] | - | 91 | 94 | - |

Noder: [1] Dangosir y data fel cyfanswm ar gyfer y cyfnod adrodd. [2] Dangosir y data fel cyfartaledd ar gyfer y cyfnod adrodd. [3] Dangosir y data fel ar ddiwedd mis Medi.

# Nod strategol: Ymgysylltu â holl bobl Cymru a hyrwyddo'r Cynulliad

| | Targed | Ebrill 2016 – Medi 2016 | Ebrill 2017 – Medi 2017 | |
|---|---|---|---|---|
| **DPA 3: Meithrin dealltwriaeth o rôl a gwaith y Cynulliad Cenedlaethol** | | | | |
| Nifer yr ymwelwyr â: [4]<br>- Y Senedd<br>- Y Pierhead | I'w gynnal ym mhob cyfnod | 45,168<br>47,276 | 72,295<br>49,984 | ● ● |
| Nifer yr ymwelwyr ar deithiau [4] | I'w gynnal ym mhob cyfnod | 15,252 | 13,125 | ● |
| Nifer y cwsmeriaid sy'n nodi bod eu profiad o fynd ar daith o amgylch yr ystâd yn dda/da iawn ar y cyfan [5] | 80% | 100% | 100% | ● |
| Nifer y digwyddiadau a drefnwyd ar yr ystâd [4] | Cynnydd ar y cyfnod blaenorol | 77 | 128 | ● |
| Nifer y cwsmeriaid sy'n nodi bod eu profiad o drefnu digwyddiad ar yr ystâd yn dda/da iawn ar y cyfan [5] | 80% | 100% | 94.7% | ● |
| Nifer y sesiynau codi ymwybyddiaeth gyffredinol wyneb yn wyneb a gynhaliwyd gyda phobl ifanc [4] | I'w gynnal ym mhob cyfnod | 381 | 414 | ● |

Noder: [4] Dangosir y data fel cyfanswm ar gyfer y cyfnod adrodd. [5] Dangosir y data fel cyfartaledd ar gyfer y cyfnod adrodd.

| | Targed | Ebrill 2016 – Medi 2016 | Ebrill 2017 – Medi 2017 |
|---|---|---|---|
| **DPA 4: Hyrwyddo gwaith y Cynulliad** | | | |
| Traffig ar y we: [6]<br>- Ymwelwyr<br>- Ymweliadau<br>- Achosion o agor tudalen benodol | I'w gynnal ym mhob cyfnod | 40,463<br>76,812<br>266,613 | 48,246<br>85,805<br>256,221 |
| Facebook – Cyrhaeddiad ar gyfartaledd [6] | I'w gynnal ym mhob cyfnod | 15,247 | 11,056 |
| Facebook – 'Hoffi' [7] | I'w gynnal ym mhob cyfnod | 7,833 | 9,840 |
| Argraffiadau Twitter (nifer y bobl a welodd y cynnwys) [7] | I'w gynnal ym mhob cyfnod | 528,900 | 581,000 |
| Twitter: [7]<br>- Dilynwyr (y prif gyfrif corfforaethol)<br>- Dilynwyr (cyfrifon eraill) | I'w gynnal ym mhob cyfnod | 41,868<br>23,259 | 46,557<br>29,852 |
| YouTube [8]<br>- Faint o bobl a oedd wedi edrych arno<br>- Munudau a wyliwyd | I'w gynnal ym mhob cyfnod | 90,766<br>59,340 | 14,403<br>92,233 |
| Defnydd o Senedd.tv: [8]<br>- Faint o bobl a oedd wedi edrych arno<br>- Defnyddwyr | I'w gynnal ym mhob cyfnod | 145,968<br>25,200 | 54,350<br>23,021 |
| Y nifer sy'n ymweld â blog y Gwasanaeth Ymchwil (Cymraeg a Saesneg) [8] | I'w gynnal ym mhob cyfnod | 63,411 | 112,416 |

Noder: [6] Dangosir y data fel cyfartaledd ar gyfer y cyfnod adrodd. [7] Dangosir y data fel ar ddiwedd mis Medi. [8] Dangosir y data fel cyfanswm ar gyfer y cyfnod adrodd. I gael gwybodaeth am y newidiadau arwyddocaol mewn niferoedd, edrychwch ar y crynodeb ar ddechrau'r adroddiad.

# Nod strategol: Defnyddio adnoddau'n ddoeth

| | Targed | Ebrill 2016 – Medi 2016 | Ebrill 2017 – Medi 2017 | |
|---|---|---|---|---|
| **DPA 5: Gwariant yn erbyn y targed** | | | | |
| Rhagolwg o ganran y tanwariant ar ddiwedd y flwyddyn [9] | <0.5% | 0.0% | 0.2% | |
| Arbedion gwerth am arian [9] | - | £362,000 | £73,414 | - |
| Nifer y diwrnodau a gymerir i dalu cyflenwyr ar gyfartaledd [10] | <10 diwrnod | 6.0 | 4.41 | |
| Nifer y diwrnodau a gymerir i dalu Aelodau'r Cynulliad ar gyfartaledd [10] | <5 diwrnod | 2.1 | 1.77 | |

Noder: [9] Dangosir y data fel ar ddiwedd mis Medi. [10] Dangosir y data fel cyfartaledd ar gyfer y cyfnod adrodd.

I gael rhagor o wybodaeth am Strategaeth Gyllidebol Comisiwn y Cynulliad edrychwch ar y **Gyllideb** a'r **Adroddiad Blynyddol a'r Datganiad o Gyfrifon**.

| | Targed | Ebrill 2016 – Medi 2016 | Ebrill 2017 – Medi 2017 | |
|---|---|---|---|---|
| **DPA 6: Gofynion a disgwyliadau o ran staff yn cael eu diwallu** | | | | |
| Absenoldeb salwch – cyfartaledd canran treigl dros 12 mis [11] | <3% | 3.5% | 3.8% | |
| Absenoldeb salwch – canran y cyfartaledd misol [11] | <3% | 2.7% | 3.4% | |
| Cwblhau adolygiadau perfformiad staff (ddwywaith y flwyddyn – Ebrill a Hydref) | 100% | 94.4% | 99.0% | |
| Cyfradd ymateb cyflogeion i'r arolwg staff blynyddol [12] | 65% yw canolrif y Gwasanaeth Sifil ar hyn o bryd. | 85.0% | 82.0% | |
| Lefel ymgysylltiad cyflogeion yn erbyn y 5 cwestiwn craidd yn yr arolwg staff blynyddol | 59% yw canolrif y Gwasanaeth Sifil ar hyn o bryd. | 72.0% | 74.0% | |
| Nifer y staff: [11] | | | | |
| - Nifer y staff | - | 442 | 478 | - |
| - Nifer y staff cyfwerth ag amser llawn | - | 423.7 | 457.3 | - |

Noder: [11] Dangosir y data fel ar ddiwedd mis Medi. [12] Caiff yr arolwg staff blynyddol ei gwblhau ym mis Mai/Mehefin bob blwyddyn.

| | Targed | Ebrill 2016 – Medi 2016 | Ebrill 2017 – Medi 2017 | |
|---|---|---|---|---|
| **DPA 7: Gwasanaethau TGCh yn cael eu darparu fel y cynlluniwyd** | | | | |
| Targedau'r cytundeb lefel gwasanaeth a gyflawnwyd ar gyfer pob achos | 90% | 90.7% | 90.4% | ● |
| Sgôr boddhad cwsmeriaid ar gyfer ymdrin ag achosion (allan o 9) | 8 | 8.9 | 8.46 | ● |

Noder: Dangosir y data fel cyfartaledd ar gyfer y cyfnod adrodd.

| | Targed | Ebrill 2016 – Medi 2016 | Ebrill 2017 – Medi 2017 | |
|---|---|---|---|---|
| **DPA 8: Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn cael eu prosesu yn ôl y gofyn** | | | | |
| Nifer y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a atebwyd | - | 41 | 38 | - |
| Canran y ceisiadau rhyddid gwybodaeth a atebwyd yn unol â'r terfyn amser statudol | 100% | 92.7% | 100% | ● |

Noder: Dangosir y data fel cyfanswm ar gyfer y cyfnod adrodd.

| | Targed | Ebrill 2016 – Medi 2016 | Ebrill 2017 – Medi 2017 | |
|---|---|---|---|---|
| **DPA 9: Targedau amgylcheddol yn cael eu cyrraedd fel y cynlluniwyd** | | | | |
| Cyfanswm ôl troed ynni (Ystâd Bae Caerdydd) | Gostyngiad o 30% yng nghyfanswm yr allyriadau ynni erbyn 2021 | 13.0% | 20.0% | ● |
| Dargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi | 100% erbyn 2021 | 96.4% | 100% | ● |

Noder: Dangosir y data fel ar ddiwedd mis Medi.

I gael rhagor o wybodaeth am faterion amgylcheddol, edrychwch ar yr **Adroddiad Amgylcheddol Blynyddol**.

# Arolwg Boddhad yr Aelodau a'u Staff Cymorth

Ym mis Chwefror, gofynnir i'r Aelodau Cynulliad a staff cymorth gwblhau arolwg boddhad blynyddol er mwyn helpu i fesur pa mor dda y mae'r gwasanaethau a ddarperir gan staff y Comisiwn wedi perfformio dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r cwestiynau'n defnyddio graddfa 10 pwynt, lle mae 1 = gwael a 10 = ardderchog. Cyflwynir crynodeb o'r canlyniadau yma.

Ni chafodd yr arolwg boddhad ei gwblhau yn 2016 oherwydd Etholiad y Cynulliad; ac felly darperir data o 2015 er mwyn cymharu. Dylid nodi hefyd bod yr arolwg boddhad wedi cael ei adolygu ar gyfer y Pumed Cynulliad ac felly nid oes data cymaradwy ar gael ar gyfer pob dangosydd.

| | Targed | 2015 | 2017 |
|---|---|---|---|
| **Nod strategol – Darparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf** | | | |
| **Y cymorth cyffredinol a ddarperir ar gyfer Pwyllgorau'r Cynulliad** | **8** | **8.3** | **8.5** |
| **Y cymorth cyffredinol a ddarperir i'r Cyfarfod Llawn** | **8** | **8.6** | **8.4** |
| **Y cymorth cyffredinol a ddarperir ar gyfer gwaith etholaethol** | **8** | **-** | **8.2** |
| **Y cymorth cyffredinol a ddarperir i ymgymryd â'ch gwaith yn eich dewis iaith** | **8** | **8.8** | **8.9** |
| **Y cymorth cyffredinol a ddarperir gan y tîm Cymorth Busnes i Aelodau** | **8** | **9.0** | **8.9** |
| **Y cymorth cyffredinol a ddarperir drwy'r swyddogaeth Datblygiad Proffesiynol** | **8** | **8.2** | **8.3** |

| | Targed | 2015 | 2017 |
|---|---|---|---|
| **Nod strategol - Ymgysylltu â holl bobl Cymru a hyrwyddo'r Cynulliad** | | | |
| **Effeithiolrwydd cyffredinol Comisiwn y Cynulliad wrth ymgysylltu â phobl Cymru** | **8** | **7.2** | **6.9** |
| **Effeithiolrwydd cyffredinol Comisiwn y Cynulliad wrth hyrwyddo gwaith y Cynulliad** | **8** | **-** | **7.0** |

| | Targed | 2015 | 2017 | |
|---|---|---|---|---|
| **Nod strategol – Defnyddio adnoddau'n ddoeth** | | | | |
| Y cymorth cyffredinol a ddarperir gan TGCh yn Nhŷ Hywel | 8 | 8.2 | 8.3 | ● |
| Y cymorth cyffredinol a ddarperir gan TGCh yn y Senedd | 8 | 8.2 | 8.4 | ● |
| Y cymorth cyffredinol a ddarperir gan TGCh yn y swyddfeydd etholaethol neu'r swyddfeydd rhanbarthol | 8 | 7.2 | 7.9 | ● |
| Y dewis cyffredinol o offer TGCh sydd ar gael | 8 | - | 7.9 | ● |
| Y cymorth cyffredinol a ddarperir ar gyfer Tŷ Hywel a'r Senedd | 8 | 8.4 | 8.7 | ● |
| Y cymorth cyffredinol a ddarperir ar gyfer swyddfeydd etholaethol neu swyddfeydd rhanbarthol | 8 | - | 8.0 | ● |

Noder: Caiff y data eu dangos fel sgôr cyfartalog a ddarperir gan Aelodau'r Cynulliad a Staff Cymorth.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon